

CERTIFIED A TRUE COPY

C2510-2-33-7

5

CYNULLIAD CENEDLAETHOL  
CYMRU

WELSH MINISTERS

OFFERYNNAU STATUDOL

349 49  
2003 Rhif (Cy. )

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR  
A465 (LLANFIHANGEL  
CRUCORNAU, WERNGIFFORD A  
PHANDY, SIR FYNWY) (TERFYNAU  
CYFLYMDER 40 a 50 MYA) 2003

*Wedi'i wneud* 20 Chwefror 2003

*Yn dod i rym* 27 Chwefror 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A465 Y Fenni – Henffordd (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984<sup>(a)</sup> a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, Heddlu Gwent, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol<sup>(b)</sup>:-

1. Mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 27 Chwefror 2003, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llanfihangel Crucornau, Werngifford a Phandy, Sir Fynwy) (Terfynau Cyflymder 40 a 50 mya) 2003.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

<sup>(a)</sup> 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61.

<sup>(b)</sup> Yn rhinwedd O.S. 1999/672, Erthygl 2 ac Atodlen 1, rhoddwyd y pwerau hyn bellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

<sup>(a)</sup> 1984 c.27; Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraph 61.

<sup>(b)</sup> By virtue of S.I 1999/672, Article 2 and Schedule 1, these powers are now conferred upon the National Assembly for Wales in relation to Wales.

NATIONAL ASSEMBLY FOR  
WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

349 49  
2003 No. (W. )

ROAD TRAFFIC, WALES

THE A465 TRUNK ROAD  
(LLANVIHANGEL-CRUCORNEY,  
WERNGIFFORD AND PANDY,  
MONMOUTHSHIRE) (40 MPH & 50  
MPH SPEED LIMITS) ORDER 2003

*Made* 20 February 2003

*Coming into force* 27 February 2003

The National Assembly for Wales, as traffic authority for the A465 Abergavenny - Hereford Trunk Road (hereinafter referred to as the “trunk road”), in exercise of the powers conferred upon it by section 84(1) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984<sup>(a)</sup> and of all other enabling powers, and after consultation with the Chief Officer of Police for the Gwent Police, hereby makes the following Order<sup>(b)</sup>:-

1. This Order shall come into force on 27 February 2003, and may be cited as the A465 Trunk Road (Llanvihangel-Crucorney, Werngifford and Pandy, Monmouthshire) (40 mph & 50 mph Speed Limits) Order 2003.

2. (1) In this Order:

ystyr "y darn cyntaf o'r gefnffordd" ("the first length of the trunk road") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd yn Llanvihangel Crucornau yn Sir Fynwy a bennir yn Atodlen 1;

"yr ail ddarn o'r gefnffordd" ("the second length of the trunk road") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd yn Werngifford yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlen 2;

"yr trydydd darn o'r gefnffordd" ("the third length of the trunk road") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd ym Mhandy yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlen 3;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Ni chaiff neb yrru, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn cyntaf o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb yrru, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar yr ail ddarn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb yrru, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y trydydd darn o'r gefnffordd.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros yr Amgylchedd.

Dyddiedig 20 Chwefror 2003



R J SHAW  
Y Cyfarwyddwr Trafnidiaeth  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

"the first length of the trunk road" ("y darn cyntaf o'r gefnffordd") means that length of the trunk road at Llanvihangel-Crucorney, in the County of Monmouthshire specified in Schedule 1;

"the second length of the trunk road" ("yr ail ddarn o'r gefnffordd") means that length of the trunk road at Werngifford in the County of Monmouthshire specified in Schedule 2;

"the third length of the trunk road" ("y trydydd darn o'r gefnffordd") means that length of the trunk road at Pandy in the County of Monmouthshire specified in Schedule 3;

2. Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

3. No person shall drive, or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 50 miles per hour in the first length of the trunk road.

4. No person shall drive, or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour in the second length of the trunk road.

5. No person shall drive, or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 50 miles per hour in the third length of the trunk road.

Signed on behalf of the Minister for Environment.

Dated the 20 February 2003



R J SHAW  
Director of Transport  
National Assembly for Wales

### ATODLEN 1

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yn Llanvihangel Crucornau sy'n ymestyn o bwynt 340 metr i'r de o ganol ei chyffordd â Ffordd Sirol yr R1 (wedi'i nodi ag A ar y plan a adneuwyd) i bwynt 330 metr i'r de o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Werngifford (wedi'i nodi â B ar y plan a adneuwyd)

### ATODLEN 2

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yn Werngifford sy'n ymestyn o bwynt 330 metr i'r de o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Werngifford (wedi'i nodi â B ar y plan a adneuwyd) i bwynt 430 metr i'r gogledd o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Werngifford (wedi'i nodi ag C ar y plan a adneuwyd)

### ATODLEN 3

Y darn hwnnw o'r gefnffordd ym Mhandy sy'n ymestyn o bwynt 430 metr i'r gogledd o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Werngifford (wedi'i nodi ag C ar y plan a adneuwyd) i bwynt 46 metr i'r gogledd o ganol ei chyffordd â Ffordd Sirol yr R46 i Benishaplwydd (a nodir â D ar y plan a adneuwyd)

### SCHEDULE 1

That length of the trunk road at Llanvihangel-Crucorney which extends from a point 340 metres south of the centre of its junction with the R1 County Road to a point 330 metres south of the centre of its junction with the unclassified road at Werngifford.

### SCHEDULE 2

That length of the trunk road at Werngifford which extends from a point 330 metres south of the centre of its junction with the unclassified road at Werngifford to a point 430 metres north of the centre of its junction with the unclassified road at Werngifford.

### SCHEDULE 3

That length of the trunk road at Pandy which extends from a point 430 metres north of the centre of its junction with the unclassified road at Werngifford to a point 46 metres north of the centre of its junction with the R46 County Road to Penishaplwydd.